OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 Rhif 903 (Cy. 138)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Y Gilfan tua'r Gorllewin yn Llan-ffwyst, y Fenni, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *10 Awst 2023* |
| *Yn dod i rym* | *19 Awst 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A465, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd yn sgil cludo llwythi anwahanadwy annormal.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Y Gilfan tua'r Gorllewin yn Llan-ffwyst, y Fenni, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Awst 2023.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

o gludo'r llwythi anwahanadwy annormal sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "y cyfnod cau" ("*closure period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 06:00 o'r gloch ar 19 Awst 2023 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cilfan cerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A465 Castell-nedd i'r Fenni sy'n dechrau o bwynt 156 o fetrau i'r gorllewin o ffordd ymuno tua'r gorllewin yr A465/B4246 wrth Gyfnewidfa Llan-ffwyst, y Fenni.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cau, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 ond yn gymwys ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 10 Awst 2023

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru